



## CYNGOR TREF LLANWRTYD

### Cynllun Band Eang Ffeibr Gigabit Llanwrtyd, Abergwesyn a'r ardaloedd cyfagos

Annwyl Breswlydd,

Mae'r llythyr hwn yn cael ei anfon atoch gan Gadeirydd Cyngor Tref Llanwrtyd, y Cynghorydd James Davies gyda chefnogaeth ein Cynghorydd Sir, Timothy Van-Rees. Pwrpas y llythyr yw canfod lefel y diddordeb mewn darparu cysylltiad band eang dibynadwy a chyflym iawn o 100 Mbps o leiaf i gartrefi a busnesau yn yr ardal a wasanaethir gan y ddau gyngor cymuned a enwir uchod. **Mae'r llythyr hwn yn gofyn am eich sylw ar frys er mwyn gallu asesu faint o ddiddordeb sydd yn y cynnig.**

#### Cyflwyniad

Mae'r Cyngor Tref wedi cwrdd i ystyried sut gellid dod â darpariaeth band eang cyflym a dibynadwy i'r ardal. Rydym wedi dewis Broadway Partners fel ein cyflenwr. Mae'r cwmni band eang hwn yn darparu nifer o rwydweithiau ffeibr llawn yn Sir Fynwy a Sir Benfro, ac mae ar fin dechrau gweithio ym Mhowys, yn Llanafan Fawr a Llanwrthwl. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd ar gyfer llawer o gymunedau eraill ledled Powys, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae cymorth ariannol sylweddol ar gael gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ond wrth gwrs mae nifer o ofnyion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cael gafael ar y cyllid hwn.

#### Y Cefndir

Mae datblygiadau wedi bod a fydd, gobeithio, yn sail i'n nod o gael gwasanaeth band eang yn ein cymunedau, sy'n debyg i'r cyflymderau cyflymaf sydd ar gael yng Nghymru.

Mae cyllid o hyd at £3,000 a £7,000 ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pob eiddo gwledig. Mae hyn ar gyfer eiddo preswyl ac eiddo busnes. Mae ffermydd yn cael eu nodi fel eiddo busnes. Dim ond i gefnogi cynlluniau cymunedol y mae'r cyllid ar gael ac ni all unigolion ei ddefnyddio ar eu pen eu hunain.

#### Faint fydd hyn yn ei gostio?

Mae'r gwaith gosod yn rhad ac am ddim i unrhyw gartref neu fusnes sy'n dymuno bod yn rhan o'r cynllun. Fodd bynnag, bydd y rheini sy'n ymrwymo i'r cynllun yn talu ffi fisol am y gwasanaeth band eang y maent wedi'u cysylltu ag ef. Mae ffi fisol o £19.99 yn darparu'r gwasanaeth sylfaenol, sef cysylltiad band eang ffeibr 100 Mbps gyda data diderfyn, gydag opsiynau ar gael am gost ychwanegol ar gyfer 300 Mbps a 1,000 Mbps. Mae hefyd yn bosibl cael gwasanaeth ffôn "VOIP" ar y rhyngwyd (gallwch gadw eich rhif presennol). Os byddwch yn dewis gwneud hyn, ni fydd angen i chi dalu rhent llinell ar gyfer ffôn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd costau galwadau yn ychwanegol. Bydd y taliadau misol yn cael eu gwneud i Broadway a bydd y contract cychwynnol yn para 12 mis.

#### Pa dechnoleg fydd yn cael ei defnyddio?

Mae'r cynllun cyllido yn mynnu bod cysylltiadau'n cael eu gwneud drwy geblau ffeibr optig sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'ch eiddo. Ond peidiwch â chymysgu hyn â band eang "ffeibr" safonol BT, sydd ond yn darparu cysylltiad cyflymder uchel i'ch cabinet BT agosaf gyda chyflymder arferol i'ch eiddo rhwng 30 a 70 Mbps. O gymharu â thechnolegau eraill, mae cysylltiad ffeibr llawn yn caniatáu i'r gosodiad gael oes hirach o lawer yn ogystal â sicrhau bod y seilwaith yn gallu cynnal cyflymderau band eang cyflymach o lawer nawr ac yn y dyfodol. Bydd system ffeibr yn darparu cyflymderau o hyd at 1 gigabit yr eiliad (hy 1,000 Mbps). Fel arfer, dim ond mewn ardaloedd trefol y mae'r math hwn o wasanaeth ar gael ac mae'n well o lawer na'r gwasanaeth band eang BT arferol a ddarperir dros y llinellau ffôn copr presennol neu gyfuniad o ffeibr i'r cabinet a chopr i'r eiddo.

### **Sut bydd y ceblau'n cael eu gosod?**

Mae Broadway'n canolbwyntio ar roi'r gwasanaeth ar waith cyn gynted â phosibl. Bydd yn defnyddio polion a phibellau BT lle bynnag y bo modd. Mae ganddo hefyd gytundeb i ddefnyddio polion foltedd isel Western Power. Pan fydd angen, bydd yn gosod polion newydd neu'n gosod pibellau newydd.

### **A fydd yn rhaid i gartrefi a busnesau 'gofrestru' cyn y gellir dechrau gweithio?**

Dim ond er mwyn bod yn rhan o'r cynllun y bydd yn rhaid i gartrefi gofrestru eu diddordeb. Er mwyn gwneud y cynllun yn hyfyw, bydd angen i o leiaf 30% o'r cartrefi a'r busnesau yn ein cymunedau gofrestru eu diddordeb.

Bydd modd cysylltu â'r rhwydwaith newydd rywbryd ar ôl iddo gael ei osod, ond gallai hyn olygu costau gosod a allai fod yn sylweddol. Mae cofrestru eich diddordeb i ymuno â'r cynllun nawr yn dileu unrhyw gostau gosod gan fod grantiau'r llywodraeth yn talu amdanynt.

### **Oni fyddai aros am BT yn syniad gwell?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod gan BT ddiddordeb mewn ymestyn ei wasanaeth band eang cyflym iawn presennol i'r eiddo hynny yn ein hardal nad ydynt wedi'u cysylltu ar hyn o bryd.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod faint o gartrefi a busnesau sydd wedi cofrestru i fod yn rhan o'r cynllun cyn gynted â phosibl, gan fod angen i ni sicrhau darpariaeth o 30% i roi'r prosiect ar waith. Bydd hyn yn caniatáu i'r cynghorau cymuned a Broadway gael mynediad at grantiau'r llywodraeth ar gyfer y gosodiadau ar draws ein cymunedau.

Os hoffech gofrestru eich diddordeb yn y cynllun, gwnewch hynny drwy un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd at Cheryl Hood, Clerc Cyngor Tref Llanwrtyd, Neuadd Llanwrtyd, Ffordd yr Orsaf, Llanwrtyd LD5 4RW neu anfon e-bost i: [lwtcclerk@gmail.com](mailto:lwtcclerk@gmail.com)
- Mynd i [www.broadwaybroadband.co.uk](http://www.broadwaybroadband.co.uk), rhoi eich cod post a chofrestru eich diddordeb ar-lein

**Ar y cam hwn, NID ydych yn ymrwymo i dderbyn y gwasanaeth, dim ond cofrestru eich diddordeb. Gwnewch hyn cyn gynted ag y bo modd.**

Yn olaf, hoffwn bwysleisio pa mor bwysig yw'r cynllun hwn yn y gymuned. Mawr obeithiwn y byddwch chi'n cofrestru eich diddordeb a'n helpu ni i sicrhau bod gan y rheini sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal hon fynediad at ryngwyd band eang sy'n cyfateb i'r gorau yng Nghymru a'r DU.

Yn gywir,

*James Davies*

Maer a Chadeirydd Cyngor Tref Llanwrtyd, y Cynghorydd

*Timothy Van-Rees*

Cynghorydd Sir, Cyngor Sir Powys



## CYNGOR TREF LLANWRTYD

### Cynllun Band Eang Ffeibr Llanwrtyd, Abergwesyn a'r ardal gyfagos

Rydw i/Rydym ni'n dymuno mynegi diddordeb yng Nghynllun Llanwrtyd, Abergwesyn a'r ardal gyfagos. Rydw i'n deall y bydd yr wybodaeth a roddaf yn cael ei rhannu â'r darparwr sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y gwasanaeth band eang ffeibr cyflym iawn yn yr ardal.

Defnyddiwch **LYTHRENNAU BRAS** i lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob cartref neu fusnes unigol (er enghraifft, os oes gennych chi dŷ a bwthyn gwyliau ar wahân, llenwch ddwy ffurflen os gwelwch yn dda)

Eich enw:

Eich cyfeiriad llawn gan gynnwys y Cod post:

Eich rhif(au) ffôn:

Eich cyfeiriad e-bost:

Eich llofnod(ion):

Dychwelwch y ffurflen hon at:

Cheryl Hood  
Clerc Cyngor Tref Llanwrtyd  
Neuadd Llanwrtyd, Ffordd yr Orsaf, Llanwrtyd, LD5 4RW  
lwtcclerk@gmail.com